# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mercher, 17 Ionawr 2018 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Meirick Davies, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Huw Jones, Pat Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Christine Marston, Bob Murray, Peter Scott, Thomas, Julian Thompson-Hill, Joe Welch (Cadeirydd), Emrys Wynne a/ac Mark Young

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (EJ), Arweinydd Tîm – Lleoedd (SC), Rheolwr Datblygu (PM), Prif Swyddog Datblygu (IW), Swyddog Cynllunio (PG) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SJ)

Croesawodd y Cadeirydd Emlyn Jones fel y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd newydd i’w gyfarfod Pwyllgor Cynllunio cyntaf.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Peter Arnold Evans a/ac Merfyn Parry

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim cysylltiadau i’w datgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim materion bryd.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2017.

**Tudalen 11, Eitem 6: Queensland House, Y Roe, Llanelwy** - Nododd y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies fod y cofnodion wedi cynnwys cyfeiriad at gynllun rheoli sŵn a fyddai ar gael yn yr amserlen ofynnol. Gofynnodd a oedd hyn wedi'i gwblhau.
Hysbysodd y Rheolwr Datblygu wrth y Pwyllgor nad oedd yr amserlen ar gyfer cwblhau hyn wedi dod i ben eto ond y byddai'n cadarnhau gyda'r Cynghorydd Meirick Lloyd Davies fod cynllun rheoli sŵn wedi'i gwblhau ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer hwnnw ddod i ben.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2018, yn amodol ar yr uchod, fel cofnod cywir.*

**CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGU (EITEMAU 5-7)**

Cyflwynwyd ceisiadau a oedd angen i'r Pwyllgor benderfynu arnynt ynghyd â'r ddogfennaeth gysylltiedig. Cyfeiriwyd hefyd at yr wybodaeth ychwanegol hwyr a dderbyniwyd ar ôl cyhoeddi'r Rhaglen a oedd yn ymwneud â cheisiadau penodol. Er mwyn rhoi amser i geisiadau siarad cyhoeddus, cytunwyd amrywio trefn y ceisiadau ar Rhaglen yn briodol.

**5 CAIS RHIF 20/2017/1068/ AC - TIR I'R GORLLEWIN O FFORDD WRECSAM, LLANFAIR DYFFRYN CLWYD, RHUTHUN**

Cyflwynwyd cais gyda manylion y cynllun graddol a gyflwynwyd yn unol ag amod rhif 3 o ganiatâd cynllunio cod rhif 20/2016/1137 ar dir i'r Gorllewin o Ffordd Wrecsam, Llanfair Dyffryn Clwyd, Rhuthun.

**Trafodaeth Gyffredinol** - Cyfeiriodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler at bryderon Cyngor Cymuned Llanfair Dyffryn Clwyd ynghylch cadw ffyrdd mynediad yn lân wrth gychwyn gwaith ar y safle.
Dywedodd y Rheolwr Datblygu fod amodau ychwanegol wedi'u gosod ar y cynllun tai. Roedd cynllun rheoli'r amgylchedd adeiladu hefyd wedi bod yn amod a roddwyd i'r cynllun tai a oedd yn cynnwys cyfleusterau golchi olwynion ar y safle i geisio cadw'r ffyrdd yn lân.
Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr Aelod Lleol yn cefnogi'r cais.

**Cynnig** - Cynigiodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler argymhellion y swyddog i ganiatáu'r cais, eiliwyd gan y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies.

**PLEIDLAIS:**
CANIATÁU – 17
GWRTHOD – 0
YMATAL – 0

***PENDERFYNWYD*** *rhoi* ***CANIATÂD*** *yn unol ag argymhellion y swyddog fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

**6 CAIS RHIF 43/2017/1147/PF – 39-41 STRYD FAWR, PRESTATYN**

Cyflwynwyd cais ar gyfer y newid defnydd o A2 i A3 (Cludfwyd Poeth) a gwaith cysylltiedig yn 39-41 Stryd Fawr, Prestatyn.

**Trafodaeth Gyffredinol** - Cadarnhaodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Lleol) ei gefnogaeth i'r cais. Dywedodd fod holl bryderon Cyngor Tref Prestatyn wedi cael sylw o fewn yr amodau a roddwyd.

**Cynnig** - Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill argymhellion y swyddogion i ganiatáu'r cais, ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Bob Murray.

**PLEIDLAIS:**
CANIATÁU – 17
GWRTHOD – 0
YMATAL – 0

***PENDERFYNWYD*** *rhoi* ***CANIATÂD*** *ar gyfer y cais yn unol ag argymhellion y swyddogion fel manylwyd yn yr adroddiad.*

**7 CAIS RHIF 43/2017/1160/AD – 39-41 STRYD FAWR, PRESTATYN**

Cyflwynwyd cais i arddangos 2 arwydd ffasgia wedi'u goleuo'n allanol ac 1 arwydd crog wedi'i oleuo'n allanol yn 39-41 Stryd Fawr, Prestatyn.

**Trafodaeth Gyffredinol** - dywedodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Aelod Lleol) ei fod yn credu na fyddai'r arwyddion arfaethedig yn cael effaith negyddol weledol ar yr ardal gadwraeth a chadarnhaodd ei gefnogaeth i'r cais.

**Cynnig –** Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill argymhellion y swyddogion i ganiatáu'r cais, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Bob Murray.

**PLEIDLAIS:**
CANIATÁU – 17
GWRTHOD – 0
YMATAL – 0

***PENDERFYNWYD*** *rhoi* ***CANIATÂD*** *ar gyfer hysbysebu, yn unol ag argymhellion y swyddogion fel manylwyd yn yr adroddiad.*

**8 ADRODDIAD ER GWYBODAETH: PENDERFYNIADAU APELIADAU CYNLLUNIO**

Cyflwynwyd adroddiad er gwybodaeth yn amlinellu’r penderfyniadau diweddar a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar apeliadau a wnaed yn erbyn penderfyniadau ar geisiadau cynllunio gan y Cyngor Sir.

***PENDERFYNWYD*** *nodi’r adroddiad er gwybodaeth.*

Yn y fan hon, hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau am ganlyniad apêl cynllunio diweddar. Roedd Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Fferm Wynt Pant Y Maen, ac wedi gwrthdroi argymhellion Arolygydd yr Apêl. Mynegodd y Cadeirydd rywfaint o syndod ar y canlyniad a theimlai dylai’r aelodau gael gwybod am y sefyllfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 09.52 a.m.